Examinations & Assessment
Arholiadau ac Asesu

WJEC, 245 Western Avenue, Cardiff CF5 2YX
029 2026 5000 exams@wjec.co.uk www.wjec.co.uk

CBAC, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YX
029 2026 5000 arholiadau@cbac.co.uk www.cbac.co.uk

☎ Direct / Uniongyrchol 029 20 265 077

Cylchlythyr Rhif 169

At: y Swyddog Arholiadau/Pennaeth Gwyddoniaeth

Our reference / Ein cyfeirnod
HG/MLJ/Circ.No. 169
Contact / Cysylltwch â
Gareth Kelly

Date / Dyddiad
Ebrill 2009

Annwyl Swyddog Arholiadau/Pennaeth Gwyddoniaeth

TGAU Gwyddoniaeth

Yn y sesiynau HMS TGAU Gwyddoniaeth diweddar, rhoddwyd eglurhad pellach ynglŷn ag asesu tasgau ymarferol yn fewnol ar gyfer cyfres 2008-09.

Mae'r dogfennau a ddarparwyd yn y sesiynau HMS hyn yn cynnwys anodi ychwanegol sy'n enghreifftiau pellach o'r hyn sy'n dderbyniol neu'n annerbyniol mewn ymatebion ymgeiswyr: maent yn adlewyrchu unrhyw esboniad sydd wedi'i roi yn ystod y flwyddyn i ganolfannau sydd wedi gofyn i CBAC am gyngor o ran dehongli materion penodol. Bwriad y dogfennau hyn felly yw rhoi enghreifftiau pellach i ganolfannau ac maent hefyd yn sail i'r cyfarwyddyd a roddwyd i safonwyr allanol.

Rhaid nodi fodd bynnag nad oes disgwyl na gofyn i ganolfannau edrych eto ar yr asesiadau a gyflawnwyd eisoes yn ystod 2008-9. Mae'r cynlluniau marcio a ddarparwyd ar y cychwyn ar gyfer Tasgau Ymarferol 2008-9 yn sail gwbl briodol ar gyfer asesiadau mewnol TGAU Gwyddoniaeth. Gwaith y safonwyr yw penderfynu a yw marcio'r ganolfan yn ddigon agos, ai peidio, at y safonau a ddiffiniwyd yn y cynllun marcio gwreiddiol ac a eglurwyd ymhellach yn yr enghreifftiau ychwanegol. Os ceir tystiolaeth bod marcio'n llym neu'n hael mewn perthynas â'r cyfarwyddyd cyffredinol hwn, bydd modd newid marciau canolfan yn ôl y drefn safonol. Os penderfynir bod unrhyw ganolfan wedi bod yn fwy llym, yn gyson, na'r dehongliad a ddarparwyd yn yr enghreifftiau ychwanegol, yna mae trefnau yn eu lle sy'n galluogi gwneud newid wrth safoni fydd yn gwneud iawn am hyn. Mae'r un peth yn wir yn achos gwneud newid pan fydd canolfan yn fwy hael yn gyson na'r cynllun marcio, yn cynnwys y dehongliad a gynigiwyd yn yr enghreifftio ychwanegol.

Os hoffech gael eglurhad pellach am y mater hwn, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â'r Swyddog Pwnc Gwyddoniaeth, Gareth Kelly ar 02920 265 081 neu anfonwch e-bost at gareth.kelly@wjec.co.uk

Yn gywir

DEREC STOCKLEY

Cyfarwyddwr Arholiadau ac Asesu

WJEC CBAC Ltd is registered in Wales at the above address as a company limited by guarantee (no 3150875) and a charity (no 1073332)
Cofrestrwyd WJEC CBAC Ltd yng Nghymru yn y cyfeiriad uchod yn gwmni a gyfyngir gan warant (rhif 3150875) ac yn elusen (rhif 1073332)